

# Cyhoeddi canlyniadau Arolwg Tracio Safbwyntiau'r Cyhoedd (Tachwedd 2017)

## Materion yn ymwneud â bwyd a oedd yn peri pryder

Y prif faterion bwyd a oedd yn peri pryder i ymatebwyr oedd:

- Hylendid bwyd wrth fwyta allan (36%)
- Gwenwyn bwyd (30%)
- Cemegion o'r amgylchedd, fel plwm, mewn bwyd (29%)
- Ychwanegion bwyd (26%)

Y prif faterion bwyd ehangach a oedd yn peri pryder oedd:

- Lefel siwgr mewn bwyd (52%)
- Gwastraff bwyd (48%)
- Prisiau bwyd (46%)
- Lles anifeiliaid (43%)

## Pryder am ddiogelwch bwyd mewn safleoedd bwyd yn y Deyrnas Unedig

Roedd 45% o ymatebwyr wedi nodi pryder am ddiogelwch bwyd mewn bwytai, tafarndai, caffis a siopau tecawê yn y Deyrnas Unedig (DU). Roedd 42% o ymatebwyr wedi nodi pryder am ddiogelwch bwyd mewn siopau ac archfarchnadoedd yn y DU. Mae'r duedd gyffredinol o bryderu am ddiogelwch bwyd mewn bwytai a siopau wedi gostwng ers Cylch 1.

## Ymwybyddiaeth o safonau hylendid

Roedd 84% o ymatebwyr wedi nodi eu bod yn ymwybodol o safonau hylendid mewn mannau lle maent yn prynu bwyd neu yn bwyta allan. Roedd 61% o ymatebwyr wedi nodi eu bod yn gwybod am safonau hylendid drwy sticeri neu dystysgrifau hylendid, a 60% drwy ymddangosiad cyffredinol y safle.

## Ymwybyddiaeth o'r ASB

Roedd canfyddiadau yn dangos bod 78% o ymatebwyr yn ymwybodol o'r ASB, sy'n debyg i gylchoedd blaenorol. O'r rheiny a oedd yn ymwybodol o'r ASB, roedd 70% yn ymddiried yn yr ASB i gyflawni ei dyletswyddau, a 75% yn nodi eu bod yn ymddiried yn yr ASB i ddweud y gwir wrth rannu gwybodaeth â nhw. Y prif fater a gafodd ei nodi gan ymatebwyr (88%) oedd eu bod yn meddwl bod yr ASB yn gyfrifol am sicrhau bod bwyd yn ddiogel i'w fwyta

## Ymwybyddiaeth o wenwyn bwyd

Salmonela (89%) ac E-coli (82%) oedd y mathau o wenwyn bwyd mwyaf adnabyddus. Y bwydydd yr oedd pobl yn credu sydd fwyaf tebygol o achosi gwenwyn bwyd oedd cyw iâr neu dwrci amrwd (79%), pysgod cregyn (54%), bwyd tecawê wedi'i ailgynhesu (47%) ac wyau (38%).

## **Ymwybyddiaeth o alergenau a nifer y digwyddiadau**

Roedd 18% o ymatebwyr yn ymwybodol o reolau penodol ynghylch alergenau, a nododd 10% fod ganddynt anoddefiad neu alergedd bwyd eu hunain. Roedd y rhan fwyaf o bobl (70%-77%) wedi nodi eu bod yn teimlo'n hyderus yn gofyn i aelodau staff mewn safleoedd bwyd am ragor o wybodaeth am gynhwysion mewn bwyd os oeddent yn pryderu am alergenau neu anoddefiad bwyd.

## **Agweddau tuag at gynhyrchu, gwerthu a labelu bwyd**

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr (75%) wedi nodi eu bod yn hyderus bod bwyd yn cydfynd â'r hyn sydd ar y label a'i fod wedi'i labelu'n gywir, ac roedd 74% yn ymddiried mewn dilysrwydd cynhwysion/ffynhonnell/ansawdd bwyd. Roedd canfyddiadau hefyd yn dangos bod 44% o ymatebwyr yn hyderus bod unigolion sy'n cynhyrchu ac yn gwerthu bwyd yn cymryd eu lles o ddifrif.

## **Cefndir**

Cafodd gwaith maes y cylch hwn ei gynnal ym mis Tachwedd 2017 gyda sampl gynrychiadol o 1,989 o oedolion yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cael eu cyfweld wyneb yn wyneb.

[Biannual Public Attitudes Tracker November 2017](#) (Saesneg yn unig)

Mae'r ASB yn cynnal arolwg tracio gyda defnyddwyr er mwyn monitro newidiadau yn agweddau'r cyhoedd tuag at yr Asiantaeth a materion sy'n ymwneud â bwyd.